



Ysgol Pentreuchaf

9. Polisi Aml-Ddiwylliannol

Nod

Creu awyrgylch addas i'r plant dyfu mewn cymdeithas aml-ddiwylliannol gan ddod yn ymwybodol fod pobl ym Mhrydain heddiw yn dod o gefndiroedd diwylliannol gwahanol ac o'r herwydd fod ganddynt eu hieithoedd eu hunain, crefyddau a diwylliant, yn cynnwys agweddau fel cerddoriaeth, bwyd, llenyddiaeth ac arferion. Ceisir dysgu'r plant i barchu eraill ac ymddiddori ynddynt. Er ei bod yn bwysig parchu crêd a diwylliant eraill, mae angen arwain y plant i barchu ac i ddeall bod ffordd o fyw sy'n foesol a phwrpasol yn goresgyn pob diwylliant a chenedl. Mae'n bwysig bod yn garedig wrth bawb sy'n rhan o'n byd a cheisio deall eu ffordd o fyw. Gobeithiwn godi ymwybyddiaeth pob plentyn er mwyn anelu at ddangos parch a chydfyw ag eraill mewn cymdeithas gytun.

Canllawiau

1. Codi ymwybyddiaeth y plant o fywyd a diwylliant pobl eraill.
2. Croesawu ymwelwyr o bob rhan o'r gymdeithas, tras hiliol, crêd a.y.y.b. er mwyn iddynt gyflwyno gwybodaeth i'r plant am eu ffordd o fyw, a rhoi'r cyfle i'r plant eu holi.
3. Gall defnyddio straeon a barddoniaeth addas fod yn fodd i annog plant i adnabod a deall pobl o wahanol hil, diwylliant a chrefydd.
4. Sicrhau gwell dealltwriaeth o broblemau pobl mewn rhannau eraill o'r byd
5. Trwy ymweliadau perthnasol byddwn yn ehangu gorwelion y disgyblion ac yn eu helpu i ddod i ddeall bod gwahanol ffyrdd o fyw. Mae'n holl bwysig fod y plant yn adnabod nodweddion sy'n debyg yn ogystal â gwahaniaethau.
6. Pan fydd plant o ddiwylliannau eraill yn dod i'r ysgol byddwn yn cynllunio'n ofalus i gynnwys rhai o'u traddodiadau yn ein gweithgareddau.
7. Defnyddiwn ddigwyddiadau perthnasol byd-eang o'r newyddion i ysgogi trafodaethau.
8. Sicrhau bod llyfrau, fideos, adnoddau a theganau ar gael yn yr ysgol sy'n adlewyrchu'r gymdeithas aml-ddiwylliannol.
9. Bydd holl staff yr ysgol yn dangos agwedd bositif tuag at unrhyw fater yn ymwneud â hil neu grefydd, yn y dosbarth, ar y buarth neu gyda rhieni.

Casgliad

Er ein bod yn byw mewn cymdeithas drefol, Cymraeg/Saesneg ei hiaith, mae'n bwysig fod plant yn ymwybodol o ddiwylliannau y tu hwnt i'w milltir sgwâr. Trwy ddealltwriaeth y dônt i ddangos parch at bobl sydd â syniadau, crefyddau a ffordd o fyw gwahanol.

Adolygir: Ionawr 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____